# Ein strategaeth

2021–25

Cyngor Meddygol Cyffredinol

# Cynnwys


**Ein strategaeth ar dudalen** 02

**Rhagair gan ein Cadeirydd** 03

**Am y strategaeth hon** 04

**Ein rôl** 05

**Ein gweledigaeth** 06

**Ein strategaeth** 07

- Galluogi gweithwyr proffesiynol i ddarparu gofal diogel 08
- Gweithlu meddygol cynaliadwy 11
- Mae pob rhyngweithiad yn bwysig 14
- Buddsoddi yn ein pobl i gyflawni ein strategaeth 17

**Ein ffordd o weithio** 20

# Ein strategaeth 2021–25

Datblygwyd y strategaeth hon gyda ac ar gyfer cleifion, y cyhoedd, gweithwyr meddygol proffesiynol a chydweithwyr.  Dros y bum mlynedd nesaf, byddwn yn canolbwyntio ein holl waith ar bedwar maes er mwyn cyflawni ein gweledigaeth deng mlynedd.




## Yr hyn y byddwn yn ei wneud i gyflawni hyn

Gyda'n gilydd, byddwn yn defnyddio'r bedair flaenoriaeth hon i siapio pob agwedd ar ein gwaith:

- diogelu cleifion a'r cyhoedd
- gosod safonau ar gyfer addysg ac arfer meddygol
- cynorthwyo gweithwyr meddygol proffesiynol a systemau gofal iechyd.

## Sut y byddwn yn gweithio

Mae ein gwerthoedd yn ein helpu i wireddu ein strategaeth.

uniondeb | cydweithio | tegwch | rhagoriaeth | tryloywder

Mae cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn rhedeg trwy ein gwaith fel rheolydd a chyflogwr.

## Ble yr ydym yn dymuno bod erbyn 2030

Ein gweledigaeth yw bod yn gyflogwr ac yn rheolydd aml-broffesiynol effeithiol, perthnasol a thosturiol – ar gyfer cleifion, y cyhoedd a gweithwyr meddygol proffesiynol.

# Rhagair gan ein Cadeirydd

Mae'r coronafeirws wedi golygu y bu'n rhaid i ofal iechyd arloesi a choleddu newid. Bydd ei effaith yn parhau am nifer o flynyddoedd i ddod.

Yr her o hyd yw sut y gellir darparu gofal pan fo'r system dan straen.

Mae disgwyliadau cleifion yn cynyddu ac mae'r galw am ofal iechyd yn codi. Mae amrywiaeth gynyddol meddygon, a'r angen i fodloni eu disgwyliadau nhw o ran eu bywydau gwaith, yn trawsnewid arfer meddygol. Rhaid i ni yn CMC ymateb i'r darlun hwn sy'n esblygu.

Rydym yn canolbwyntio ar ddiogelwch cleifion, ynghyd ag ansawdd a lles ein cofrestreion.

Mae amgylcheddau gwaith meddygon yn effeithio'n fawr ar ddarpariaeth gofal diogel ac o ansawdd uchel i gleifion. Mae astudiaethau'n dangos bod meddygon sy'n cael eu cynorthwyo'n dda ac sydd wedi cael eu hyfforddi'n dda, ac sy'n gweithio mewn diwylliant cydweithredol a thosturiol, yn darparu gofal gwell.

Er mwyn bodloni anghenion cleifion, rhaid bod gwasanaethau iechyd yn cynnwys y clinigwyr cywir yn y mannau cywir. Mae trefniadau gwell i recriwtio a chadw meddygon yn hanfodol, ar gyfer gofal cleifion ac ar gyfer lles gweithwyr proffesiynol.

Fel sefydliad ar gyfer diogelwch cleifion, mae gennym rôl i'w gyflawni wrth ddylanwadu ar yr holl ffactorau hyn.

Dros y blynyddoedd nesaf, byddwn yn datblygu i fod yn rheolydd aml-broffesiynol wrth i gymdeithion meddygol a chymdeithion anesthesia ddod yn gofrestreion. Rydym wedi cynllunio'r strategaeth hon i fod yn hyblyg ac yn berthnasol, a byddwn yn ei defnyddio er mwyn siapio ein penderfyniadau wrth i ni wynebu'r ansicrwydd sydd o'n blaenau.

Rydym yn ddiolchgar i'r cleifion, y meddygon, y cydweithwyr a'r sefydliadau partner hynny sydd wedi rhoi eu hamser yn hael er mwyn helpu i siapio'r strategaeth hon.

Clare Marx.

Bonesig Clare Marx
Cadeirydd CMC



Hawlfraint delwedd: © The Royal College of Surgeons of England

# Am y strategaeth hon

Diolch i fewnbwn nifer o gleifion, gweithwyr meddygol proffesiynol, partneriaid a chydweithwyr, mae gennym ddarlun clir o'r man lle'r ydym yn dymuno bod yn 2025.

Yn y strategaeth gorfforaethol hon, rydym yn cyflwyno ein gweledigaeth deng mlynedd, gan amlinellu'r camau y byddwn yn eu cymryd er mwyn cyflawni'r nod hwn dros y bum mlynedd nesaf. Mae'r strategaeth hon yn pennu'r cyfeiriad ar gyfer y Cyngor Meddygol Cyffredinol (CMC) a'r Gwasanaeth Tribiwnlys Ymarferwyr Meddygol (MPTS).[1]

Law yn llaw â'r strategaeth gyffredinol hon, yn gynnar yn 2020, byddwn yn cyhoeddi ein cynllun busnes – gan nodi'r prif weithgareddau yn erbyn pob un o'r themâu strategol dros y dair blynedd nesaf. Byddwn yn adolygu ein blaenoriaethau yn rheolaidd, fel bod ein gwaith yn parhau i fod yn berthnasol.

### Hyrwyddo cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant

Credwn bod cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant (ED&I) yn rhan annatod o'n gwaith fel rheolydd, ac fel cyflogwr. Dyma pam ein bod wedi integreiddio ein hymrwymiadau ED&I yn y strategaeth hon.

Ysgogir ein hymrwymiadau ED&I gan ein huchelgais i sicrhau cynnydd wrth fynd i'r afael â materion parhaus sy'n ymwneud ag anghydraddoldeb, gan sicrhau newidiadau a chanlyniadau cadarnhaol ar gyfer y grwpiau amrywiol yr ydym yn gweithio gyda nhw ac ar eu rhan.

Mae meddu ar weithlu amrywiol a chynhwysol, o fewn CMC ac o fewn systemau gofal iechyd ar draws y DU, yn hanfodol.

Rydym yn sefydliad myfyriol ac yn un sy'n dysgu, ac rydym yn dymuno gwneud mwy i ddeall ac ymateb i anghenion amrywiol y proffesiwn meddygol a chleifion. Byddwn yn agored ac yn dryloyw am ein cynnydd wrth nodi a rhoi sylw i faterion ynghylch tegwch ac anghydraddoldeb, a byddwn yn gweithio gydag eraill i ysgogi newid. Byddwch yn gallu darllen am ein cynnydd yn ein hadroddiadau blynyddol.

### Olrhain cynnydd

Trwy gydol cyfnod y strategaeth hon, byddwn yn asesu cynnydd ac yn ei gyhoeddi yn ein hadroddiadau blynyddol. Bydd yr asesiad hwn yn canolbwyntio ar wybodaeth ar lefel gweithgarwch yn bennaf. Bydd gwaith dadansoddi ac adborth gan randdeiliaid sydd ar gael yn cyd-fynd ag ef er mwyn ein helpu i ddeall cynnydd a chyd-destun ar lefel thema strategol.

1 Mae MPTS yn bwyllgor statudol CMC, sy'n gweithredu ar wahân i rôl CMC wrth ymchwilio i bryderon.

# Ein rôl

**Ni yw rheolydd annibynnol gweithwyr meddygol proffesiynol y DU. Mae hyn yn cynnwys meddygon, ac yn ystod cyfnod y strategaeth hon, cymdeithion meddygol a chymdeithion anesthesia hefyd.**

## Ein diben

Pennir y gwaith a wnawn gan Ddeddf Meddygol 1983. Ein hamcan cyffredinol yw diogelu'r cyhoedd. Ein nod yw:

- diogelu, hyrwyddo a chynnal iechyd, diogelwch a lles y cyhoedd
- hyrwyddo a chynnal hyder y cyhoedd mewn gweithwyr meddygol proffesiynol
- hyrwyddo a chynnal safonau ac ymddygiad proffesiynol cywir ar gyfer gweithwyr meddygol proffesiynol.[2]



## Sut ydym yn gwneud hyn?

- Rydym yn rheoli cofrestr feddygol y DU, gan archwilio manylion adnabod a chymwysterau pawb yr ydym yn eu rheoleiddio cyn y gallant weithio yn y DU.
- Rydym yn goruchwylio pob cam o addysg a hyfforddiant meddygol, er mwyn galluogi dysgu teg, diogel ac effeithiol.
- Rydym yn pennu'r safonau – gwerthoedd proffesiynol, gwybodaeth, sgiliau ac ymddygiad – y bydd angen i weithwyr meddygol proffesiynol eu dilyn trwy gydol eu gyrfaoedd.
- Rydym yn helpu i sicrhau bod gweithwyr meddygol trwyddedig yn diweddaru eu gwybodaeth a'u sgiliau trwy gyfrwng proses ailddilysu.
- Rydym yn ymchwilio i bryderon sy'n peryglu hyder cleifion neu'r cyhoedd mewn gweithwyr meddygol proffesiynol, ac yn gweithredu yn eu cylch. Mewn rhai sefyllfaoedd, byddwn yn cyfeirio'r achos at y Gwasanaeth Tribiwnlys Ymarferwyr Meddygol (MPTS) am wrandawiad.[3]

2 Adeg ysgrifennu'r strategaeth hon, mae hyn yn ymwneud â meddygon yn unig. Yn y dyfodol, bydd yn cynnwys cymdeithion meddygol a chymdeithion anesthesia hefyd.
3 Mae tribiwnlysoedd MPTS yn gwneud penderfyniadau annibynnol sy'n seiliedig ar safonau a bennir gan CMC.

# Ein gweledigaeth: ble'r ydym yn dymuno bod erbyn 2030

**Mae ein gweledigaeth wedi ei hymwreiddio yn y bobl yr ydym yn gweithio gyda nhw ac ar eu rhan. Byddwn yn rheolydd effeithiol, perthnasol a thosturiol ar gyfer cleifion, y cyhoedd a gweithwyr proffesiynol, ac fel cyflogwr.**

Bydd tystiolaeth a nodau a rennir yn parhau i lywio ein penderfyniadau. Bydd arloesi a thechnoleg yn helpu i sicrhau bod ein gwasanaethau a'n rhyngweithiadau yn well

Byddwn yn rheolydd aml-broffesiynol sy'n canolbwyntio ar gynorthwyo gweithwyr proffesiynol yn y mannau lle y maent yn gweithio. Mae hyn yn gofyn am weithredu unedig gennym oll – rheolyddion, cyflogwyr ac addysgwyr.

# Ein strategaeth:

Gan weithio tuag at ein gweledigaeth ar gyfer 2030, o 2021 i 2025, bydd pedair thema strategol yn siapio popeth a wnawn.



## Galluogi gweithwyr proffesiynol i ddarparu gofal diogel

Byddwn yn gweithio gyda phartneriaid ar draws gwasanaethau iechyd y DU i wella diwylliannau ac amgylcheddau gwaith, gan sicrhau eu bod yn gefnogol, yn gynhwysol ac yn deg i weithwyr meddygol proffesiynol. Byddwn yn gweithio gyda chleifion a gweithwyr meddygol proffesiynol er mwyn sicrhau bod ein harweiniad yn parhau i fod yn berthnasol ac yn effeithiol, a'i fod yn cynrychioli anghenion amrywiol unigolion.



## Datblygu gweithlu meddygol cynaliadwy

Byddwn yn defnyddio ein safle fel rheolydd aml-broffesiynol a'n rôl ym maes addysg a hyfforddiant er mwyn helpu i ddatblygu gweithlu meddygol amrywiol sy'n meddu ar y sgiliau cywir, fel bod cleifion yn cael gofal o'r ansawdd gorau.



## Sicrhau bod pob rhyngweithiad yn bwysig

Byddwn yn sicrhau bod pob un sy'n rhyngweithio gyda ni – trwy ein prosesau neu ein gwaith cyfathrebu – yn cael ymateb effeithlon a llawn empathi. Bydd hyn yn cynnwys sicrhau bod ein holl ryngweithiadau yn gynhwysol ac wedi'u teilwra i anghenion unigol.



## Buddsoddi yn ein pobl er mwyn cyflawni ein strategaeth

Fel sefydliad, byddwn yn sicrhau ein bod mewn sefyllfa dda i wireddu ein huchelgais trwy barhau i ddatblygu ein pobl CMC – staff, cymdeithion ac aelodau'r Cyngor. Yn arbennig, byddwn yn canolbwyntio ar greu diwylliant o arweinyddiaeth gynhwysol, arloesi a phroffesiynoldeb. Bydd gwella cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant ar draws y sefydliad yn hanfodol yn hyn o beth.




# Galluogi gweithwyr proffesiynol i ddarparu gofal diogel

**Mae gwaith ymchwil helaeth yn dangos bod gweithwyr gofal iechyd proffesiynol sy'n gweithio mewn amgylcheddau cefnogol, lle y rhoddir blaenoriaeth i'w lles, yn gallu rhoi gofal diogel ac o ansawdd uchel i gleifion yn well.**

## Ein hymrwymiad

Byddwn yn gweithio gyda phartneriaid ar draws gwasanaethau iechyd y DU er mwyn gwella diwylliannau ac amgylcheddau gwaith, gan sicrhau eu bod yn gefnogol, yn gynhwysol ac yn deg i weithwyr meddygol proffesiynol.  Trwy wneud hyn, bydd cleifion yn cael budd gan ofal gwell a mwy diogel, a bydd y gweithlu yn cadw ac yn denu rhagor o weithwyr proffesiynol.

Byddwn yn parhau i weithio gyda chleifion a gweithwyr proffesiynol meddygol hefyd, er mwyn sicrhau bod ein harweiniad yn parhau i fod yn berthnasol ac yn effeithiol, a'i fod yn cynrychioli anghenion amrywiol unigolion.

## Beth fyddwn yn gallu ei wella?

- Mae ymchwil yn dangos bod ffactorau megis arweinyddiaeth gadarnhaol, cymorth ac ymreolaeth yn hyrwyddo lles clinigwyr, ac felly, diogelwch cleifion. Yn anffodus, nid yw'r rhain wastad yn cael eu rheoli mewn ffordd briodol mewn lleoliadau gofal iechyd.
- Mae angen i sefydliadau ar draws gwasanaethau iechyd y DU, gan gynnwys yn y sector annibynnol, gydweithio'n agosach i sicrhau bod y gofynion a'r arweiniad i weithwyr gofal iechyd proffesiynol yn cyd-fynd.
- Mae ymchwil a thystiolaeth yn dangos bod rhai grwpiau o feddygon[4] yn wynebu mwy o sialensiau a rhwystrau yn eu hamgylchedd gwaith, ac mae'r rhain yn gallu effeithio ar eu bywydau gwaith a'u cyfleoedd i gamu ymlaen yn eu gyrfa. Ceir anghydraddoldebau iechyd sydd wedi bodoli yn y DU ers cryn amser, ac mae'r rhain yn aml yn gysylltiedig ag amddifadedd economaidd a daearyddiaeth, sy'n gallu cael effaith sylweddol ar y cyfleoedd i fanteisio ar ofal iechyd, canlyniadau cleifion, ansawdd bywyd a disgwyliad oes.
- Er bod pandemig y coronafeirws wedi gwaethygu rhai problemau a oedd yn bodoli eisoes, arweiniodd at rai newidiadau cadarnhaol hefyd. Rhaid i ni ddatblygu'r gwelliannau o ran gwaith tîm, hyblygrwydd ac arloesi, yn ogystal â'r ffocws ar les gweithwyr proffesiynol.

## Sut fydd hyn yn edrych?

**Rydym yn gweithio gydag eraill i wella diwylliannau gweithle mewn amgylcheddau gofal iechyd ar draws y DU, gan sicrhau eu bod yn ddiogel, yn gynhwysol ac yn gefnogol.**

- Mae ein gwaith gyda darparwyr addysg a hyfforddiant a chyflogwyr yn helpu i ymwreiddio arweinyddiaeth gynhwysol, darpariaeth ymsefydlu da, gwaith effeithiol mewn tîm a llwythi gwaith y gellir ymdopi â nhw, yn ogystal â chymorth parhaus ar gyfer gweithwyr iechyd proffesiynol ar draws y DU
- Mae rheolyddion gofal iechyd a chyrff gwella yn cydweithio i leihau dyblygu, sicrhau bod nodau a gofynion yn cyd-fynd, ac i egluro cyfrifoldebau rheolyddion.
- Mae ein timau Allgymorth yn gweithio gyda gweithwyr proffesiynol a sefydliadau ar lefel leol er mwyn cynorthwyo ymdrechion i wella ansawdd a diogelwch cleifion, yn ogystal â hyrwyddo llywodraethu clinigol a staff teg, tryloyw a chynrychioliadol.
- Gyda systemau gofal iechyd, rydym yn mynd i'r afael â phroblem cyfeiriadau annheg a wneir i reolyddion, yn ogystal ag ymddygiad bwlio ac o wahaniaethu. Gall pawb godi eu llais a mynegi pryderon am eu gweithle heb orfod ofni y bydd rhywun yn dial arnynt.

**Gall y gweithwyr proffesiynol yr ydym yn eu rheoleiddio fodloni'r safonau proffesiynol y bydd cleifion yn eu disgwyl, gan ddefnyddio eu barn i weithredu ein safonau a'n harweiniad moesegol.**

- Mae ein harweiniad a'n safonau moesegol yn cyd-fynd yn well ar draws proffesiynau, gan adlewyrchu anghenion amrywiol pobl a hyrwyddo'r ymddygiad proffesiynol y bydd cleifion yn ei ddisgwyl mewn ffordd effeithiol.

4 Er enghraifft, meddygon duon ac o leiafrifoedd ethnig; menywod; meddygon y mae ganddynt wahanol ffydd; meddygon sy'n lesbiaid, yn hoyw neu'n ddeurywiol; meddygon traws a meddygon anabl

- Mae gweithwyr meddygol proffesiynol yn teimlo eu bod yn cael eu cynorthwyo i weithredu ein harweiniad – er enghraifft, trwy waith ein timau Allgymorth, neu trwy gyfrwng arweinyddiaeth yn eu mannau gwaith.
- Mae'r system gofal iechyd yn datblygu dull mwy myfyriol tuag at ddatblygiad proffesiynol, gan gynnwys trwy gyfrwng arfarniadau ac ailddilysu.
- Rydym yn rhoi ystyriaeth lawn i ffactorau dynol, yr amgylchedd a'r cyd-destun yn ein hymchwiliadau addasrwydd i wneud gwaith meddygol.

**Rydym yn defnyddio ac yn rhannu ein data a'n dirnadaeth er mwyn gwella amgylcheddau a rhoi sylw i anghydraddoldebau.**

- Mae'r data a'r wybodaeth yr ydym yn ei chasglu, er enghraifft trwy gyfrwng yr arolygon hyfforddiant cenedlaethol, yn parhau i gael ei rhannu mewn ffordd ragweithiol ymhlith sefydliadau partner, cyflogwyr, y cyhoedd a'r proffesiynau, ac fe'i defnyddir i hyrwyddo arfer da ac i nodi a rhoi sylw i arfer gwael.

**Mae gweithwyr gofal iechyd proffesiynol sy'n gweithio mewn amgylcheddau cefnogol, lle mae eu lles yn flaenoriaeth, yn gallu rhoi gofal diogel o ansawdd uchel i gleifion yn well.**





# Datblygu gweithlu meddygol cynaliadwy

Yr ased mwyaf gwerthfawr ym maes gofal iechyd yn y DU yw talent, ymrwymiad ac amrywiaeth ei bobl. Mae prinder parhaus gweithwyr gofal iechyd yn y DU, yn enwedig mewn rhai lleoliadau ac mewn rhai meysydd arbenigol, yn bygwth gofal cleifion a lles a chynnydd gweithwyr proffesiynol.

## Ein hymrwymiad

Byddwn yn defnyddio ein safle er mwyn helpu i siapio addysg a hyfforddiant meddygon, i gynorthwyo datblygiad myfyrwyr meddygol a gweithwyr proffesiynol yn well.

Byddwn yn sicrhau bod mynediad i'r gofrestr feddygol a sicrhau cynnydd trwy hyfforddiant yn deg ac yn hyblyg ar gyfer y gweithwyr proffesiynol yr ydym yn eu rheoleiddio. A byddwn yn ymgymryd â'r gwaith o reoleiddio rolau cymdeithion meddygol a chymdeithion anesthesia, gan fanteisio i'r eithaf ar eu cyfraniad nhw i'r gweithlu.

## Beth fyddwn yn gallu ei wella?

Mae effaith pandemig y coronafeirws, gan gynnwys ei effaith ar les gweithwyr iechyd proffesiynol ac ar weithgarwch symud rhyngwladol, yn gwaethygu'r sialensiau presennol y mae'r gweithlu yn eu hwynebu.

- Nid yw addysg, hyfforddiant ac arfer yn ddigon hyblyg i fodloni anghenion myfyrwyr meddygol a gweithwyr gofal iechyd proffesiynol trwy gydol eu gyrfaoedd. Mae angen i weithwyr meddygol proffesiynol gael y sgiliau a'r profiad er mwyn gofalu am wahanol fathau o gleifion, sy'n hŷn, sydd â mwy o forbidrwydd lluosog ac y mae ganddynt wahanol ddisgwyliadau. Mae angen iddynt addasu i arloesi ym maes arfer meddygol, a fydd yn newid y ffordd y maent yn gweithio.
- Mae rhai yn y gweithlu yn ei chael hi'n anodd sicrhau cynnydd neu gyfranogi'n llawn, ac mae rhai pobl sydd â nodweddion gwarchodedig yn wynebu gwahaniaethu yn y gweithle. Gwelir cyrhaeddiad gwahaniaethol mewn arholiadau ar gyfer meddygon BME, nid yw patrymau gwaith yn ddigon hyblyg i nifer o weithwyr proffesiynol, gan gynnwys y rhai sydd â chyfrifoldebau gofalu neu feddygon anabl, a cheir diffyg amrywiaeth cymdeithasol-economaidd ym maes meddygaeth. Nid yn unig y bydd cael gweithlu mwy amrywiol a chynhwysol yn well i weithwyr proffesiynol, ond bydd yn well ar gyfer gofal cleifion hefyd.
- Nid yw proffesiynau newydd, megis cymdeithion meddygol a chymdeithion anesthesia, yn cael eu rheoleiddio eto, sy'n golygu nad ydynt yn gallu gweithio i'w llwyr botensial.

Ceir cyfleoedd hefyd, megis technolegau newydd, mwy o ffyrdd o ddarparu a chael gofal, a gwaith tîm mwy effeithiol. Gyda'n partneriaid, mae angen i ni sicrhau bod y gweithlu meddygol yn gallu parhau i addasu, gyda'r rolau a'r sgiliau y mae ei angen arno, a bod camau arloesi yn cael eu cyflwyno mewn ffordd ddiogel a theg.

## Sut fydd hyn yn edrych?

**Rydym yn gweithio gyda sefydliadau gweithlu i gynorthwyo mwy o weithwyr proffesiynol sy'n bodloni'r safonau gofynnol er mwyn ymuno â gweithlu meddygol y DU a pharhau i weithio ynddo.**

- Mae ein llwybrau cofrestru yn fwy hyblyg a hygyrch, gan gynorthwyo rhagor o feddygon i ymuno â gweithlu y DU, gan gynnal sgiliau a llif y gweithlu ar ôl Brexit yn arbennig.
- Gall cymdeithion meddygol a chymdeithion anesthesia gyflawni rôl mwy fyth yng ngweithlu y DU, pan fyddwn yn eu rheoleiddio.
- Mae'r Asesiad Trwyddedu Meddygol (ATM) yn sicrhau bod myfyrwyr o'r DU a graddedigion meddygol rhyngwladol yn cymryd asesiadau wedi'u mapio yn ôl yr un set o wybodaeth, sgiliau ac ymddygiad craidd ar gyfer arfer yn y DU. Bydd hyn yn lleihau'r amrywiadau direswm yn y safonau, gan gyflwyno profiadau cymharol i ymgeiswyr..
- Mae cyrff gofal iechyd ar draws y DU wedi cynyddu'r ffocws ar gadw'r gweithlu, gan ymateb yn rhannol i'r ffocws uwch ar les, a amlinellwyd yn ein thema strategol gyntaf, Galluogi'r proffeswin i ddarparu gofal diogel.

**Mae addysg a hyfforddiant yn berthnasol, yn hygyrch ac yn gefnogol, gan roi'r sgiliau i'r holl weithwyr proffesiynol y bydd eu hangen arnynt i fodloni anghenion cleifion yn y**

- Mae addysg a hyfforddiant yn rhoi'r sgiliau perthnasol i'r gweithlu er mwyn iddynt allu bodloni anghenion cleifion sy'n esblygu. Mae hyn yn cynnwys gallu: gofalu mewn ffordd effeithiol am gleifion a chymunedau amrywiol; rhoi sylw i anghydraddoldebau gofal iechyd; a darparu gofal mewn ffordd effeithiol, diogel ac arloesol. Byddwn yn cyflawni ein rhan yn hyn trwy ein rôl i bennu safonau addysg a chymeradwyo cwricwla, yn ogystal â thrwy'r ATM a threfniant o ran cymwysterau wedi'i reoli gan CMC.

- Mae amgylcheddau hyfforddi yn fwy diogel, yn fwy cefnogol ac yn fwy cynhwysol – gan ganiatáu i'r holl weithwyr meddygol proffesiynol ddatblygu a sicrhau cynnydd. Mae hyfforddwyr ac addysgwyr yn darparu hyfforddiant mewn ffordd arloesol yn unol â ffyrdd newydd o weithio ac angen cleifion.
- Mae sefydliadau addysg a hyfforddiant yn cymryd camau effeithiol i roi sylw i gyrhaeddiad gwahaniaethol ac adlewyrchu amrywiaeth mewn cwricwlwm meddygol, addysgu a dysgu.

**Mae hyfforddiant ar gyfer y gweithlu meddygol yn fwy hyblyg, trwy gydol eu gyrfaoedd.**

- Mae addysg a hyfforddiant yn fwy hyblyg, gyda mwy o ddysgu ar draws arbenigeddau, a chan roi sylw i ffyrdd o weithio ac anghenion cleifion yn y dyfodol.
- Ceir llwybrau mwy hyblyg trwy hyfforddiant a chamu ymlaen mewn gyrfa, trwy gydol gyrfaoedd gweithwyr proffesiynol. A cheir mwy o gymorth wrth bwyntiau pontio, yn enwedig ar gyfer meddygon penodol sy'n wynebu rhwystrau, megis meddygon arbenigol, meddygon arbenigol cyswllt a meddygon a gyflogir yn lleol, meddygon anabl, neu'r rhai sydd â chyfrifoldebau gofalu.
- Mae'r gweithlu meddygol yn gallu manteisio ar ddysgu gydol oes er mwyn sicrhau eu bod yn datblygu eu sgiliau yn barhaus er mwyn sicrhau gofal gwell i gleifion.




**Mae tyfu gweithlu meddygol medrus, amrywiol a gefnogir yn dda yn hanfodol i gleifion a gweithwyr meddygol proffesiynol fel ei gilydd.**



# Sicrhau bod pob rhyngweithiad yn bwysig

**Mae gan bob un sy'n rhyngweithio gyda ni anghenion unigol. Mae gwrando a dysgu bob dydd yn rhoi'r wybodaeth a'r gallu i addasu i ni er mwyn rhyngweithio gyda phobl mewn ffordd sy'n addas iddyn nhw.**

## Ein hymrwymiad

Yn aml, bydd gweithwyr gofal iechyd proffesiynol ac aelodau'r cyhoedd yn troi atom yn ystod cyfnod heriol. Byddwn yn sicrhau eu bod yn cael empathi, tegwch a phroffesiynoldeb gan ein holl gydweithwyr. A byddwn yn gwrando ar, yn dysgu gan ac yn gweithredu ar sail eu hadborth am ein gwasanaethau.

Byddwn yn sicrhau hefyd bod ein prosesau mor effeithlon ac effeithiol ag y bo modd, a disgwyliwn weld newidiadau i ddeddfwriaeth a fydd yn caniatáu i ni wella'r ffordd yr ydym yn cyflawni ein rôl.

Byddwn yn sicrhau bod pawb yn gallu manteisio ar ein gwasanaethau a'n gwybodaeth mewn ffordd sy'n addas iddyn nhw. Er enghraifft, trwy ddarparu gwybodaeth mewn ffurf neu iaith arall, addasu'r ffordd yr ydym yn cyfathrebu gyda rhywun, neu ddarparu cymorth ychwanegol er mwyn galluogi rhywun i fynegi pryder i ni.

## Beth fyddwn yn gallu ei wella?

- Mae angen i ni ddysgu mwy am brofiadau pobl sy'n rhyngweithio gyda ni, yn ogystal â'u hanghenion a'u disgwyliadau. Bydd y ddirnadaeth hon yn ein helpu i addasu ein dull a gwella ein rhyngweithiadau.
- Rydym yn gwybod bod pobl weithiau yn teimlo bod eu rhyngweithiadau gyda ni yn rhai amhersonol. Ceir cyfleoedd i ddod ynghyd o fewn y sefydliad er mwyn cynorthwyo myfyrwyr meddygol, gweithwyr proffesiynol, cleifion, partneriaid rheoliadol a chydweithwyr yn well.
- Gallwn wneud mwy i sicrhau bod ein prosesau a'n rhyngweithiadau yn fwy hygyrch a'u bod wedi cael eu teilwra i anghenion unigolion.
- Mae rhai o'n prosesau yn hirfaith ac yn gymhleth ac mae ein deddfwriaeth sydd wedi dyddio yn rhwystro ein gallu i'w symleiddio.
- Roedd effaith pandemig y coronafeirws ar ein gwasanaethau, ac ar y gwasanaeth iechyd yn y DU yn gyffredinol, yn golygu ein bod wedi gwneud newidiadau cyflym i'r ffordd yr ydym yn gweithio. Dylem ddatblygu'r rhai a oedd wedi gweithio'n dda.

## Sut fydd hyn yn edrych?

**Mae gennym ddealltwriaeth well o brofiadau pobl sy'n rhyngweithio gyda ni, yn enwedig profiadau gweithwyr proffesiynol, cleifion a'r cyhoedd.**

- Mae pawb sy'n rhyngweithio gyda ni yn teimlo bod rhywun yn gwrando arnynt ac maent o'r farn ei bod yn hawdd ymgysylltu â ni. Mae hyn yn cynnwys, er enghraifft, mynegi pryder am weithiwr meddygol proffesiynol, bod yn destun ymchwiliad neu wneud cais am gofrestriad.
- Rydym yn gweithio gyda grwpiau amrywiol o gleifion ac aelodau'r cyhoedd er mwyn siapio ein gwaith, fel y gallwn wella ein prosesau a'n rhyngweithiadau yn barhaus.
- Rydym yn gweithio gyda grwpiau amrywiol o weithwyr meddygol proffesiynol ac yn deall eu profiadau o arfer yn well, fel y gallwn eu rheoleiddio a'u cynorthwyo mewn ffordd effeithiol. Ac rydym yn rhannu'r hyn a ddysgwn gydag eraill er mwyn ysgogi gwelliannau yn y system gofal iechyd ehangach.

**Rydym yn defnyddio dealltwriaeth well o brofiadau pobl er mwyn gwella ein rhyngweithiadau gyda'r holl rai yr ydym yn gweithio gyda nhw.**

- Mae ein holl ryngweithiadau'n empathig ac mae pawb yn teimlo eu bod yn cael eu trin mewn ffordd deg, a gydag urddas a pharch. Rydym yn defnyddio'r wybodaeth yr ydym yn ei meithrin mewn ffordd ragweithiol er mwyn rhagweld a bodloni anghenion amrywiol pobl yn y gweithgareddau yr ydym yn eu darparu.
- Mae gwybodaeth am ein rôl a'r sefydliadau eraill sy'n delio gyda phryderon am ofal meddygol yn glir ac yn hygyrch i bawb.
- Caiff ffyrdd newydd ac arloesol o weithio a rhyngweithio eu hystyried yn barhaus, a'u hymgorffori ym mhopeth a wnawn er mwyn bodloni anghenion pawb yr ydym yn gweithio gyda nhw ac ar eu rhan.


**Rydym yn adolygu ein prosesau yn rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod mor effeithiol ag y bo modd, a'n bod yn defnyddio ein hadnoddau mewn ffordd briodol a chyfrifol.**

- Mae argymhellion gan ymchwiliadau cyhoeddus yn parhau i'n helpu i addasu ei ffyrdd o weithio er gwell. Ac rydym yn gweld newidiadau i ddeddfwriaeth a fydd yn caniatáu i ni weithio mewn ffordd fwy hyblyg. Byddai hyn yn gwneud ein prosesau yn symlach ac yn fwy cefnogol, gan wella pethau i weithwyr gofal iechyd proffesiynol ac i'r gwasanaethau iechyd yn y DU.
- Rydym yn llwyddo i fodloni'r hyn y mae gweithwyr proffesiynol, cleifion a phartneriaid ei angen gennym fel rheolydd y proffesiynau meddygol ar lefel genedlaethol, rhanbarthol neu leol.



**Mae gwrando a dysgu bob dydd yn rhoi'r gwybodaeth a gallu i addasu i ryngweithio â phobl mewn ffordd sy'n addas iddyn nhw.**





# Buddsoddi yn ein pobl er mwyn cyflawni ein strategaeth

**Ein pobl yn CMC – ein cydweithwyr, ein cymdeithion, aelodau ein Cyngor – yw ein hased fwyaf a bydd galluogi eu datblygiad parhaus nhw yn ein helpu i wireddu ein huchelgais.**

## Ein hymrwymiad

Byddwn yn parhau i roi ffocws ar ddatblygu sgiliau ein pobl yn CMC, gan feithrin diwylliant o arweinyddiaeth gynhwysol, arloesi a phroffesiynoldeb ymhlith cydweithwyr ar bob lefel yn arbennig.

Rydym yn datgan ein hymrwymiad o'r newydd i fod yn sefydliad cyfrifol, yn gymdeithasol ac yn amgylcheddol. Ac yn hanfodol, credwn bod darparu amgylchedd gwaith cynhwysol, cefnogol a gofalgar o fewn CMC – yn yr un modd ag mewn lleoliad gofal iechyd – yn hollbwysig.

Rydym wedi ymrwymo i fod yn sefydliad mwy cynhwysol. Mae ymrwymiad dwfn i greu diwylliant lle y mae pawb yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u cynnwys, yn cyd-fynd â hyn. Mae'n hanfodol bod pawb yn teimlo eu bod yn perthyn, bod ganddynt lais a'u bod yn cael eu gwerthfawrogi am eu sgiliau a'u galluoedd unigol unigryw a dilys.

## Beth fyddwn yn gallu ei wella?

- Mae'r ffordd y mae ein pobl wedi ymateb i newidiadau byd-eang nas gwelwyd eu tebyg erioed o'r blaen – gyda chyflymder, hyblygrwydd a thosturi – yn rhoi'r hyder i ni y gallwn fod yn rheolydd mwy effeithiol ac effeithlon.
- Er bod nifer o bethau wedi newid yn ein bywydau gwaith a'n bywydau personol, mae'r ymrwymiad a'r ymroddiad ar y cyd y mae ein cydweithwyr wedi ei ddangos i'r rhai sy'n rhyngweithio gyda ni yr un fath. Rydym yn dymuno dysgu o'r newidiadau yr ydym wedi'u gwneud, y maent wedi cynnig budd go iawn i'r rhai sy'n gweithio i ni a gyda ni, a'u symud yn eu blaen.
- Trwy wrando ar ein cydweithwyr, rydym yn gwybod nad ydynt wastad yn teimlo eu bod yn cael eu grymuso i arwain o fewn eu rôl efallai, felly mae angen i ni gymryd y camau angenrheidiol er mwyn galluogi hyn, gan gynnwys eu cynorthwyo a datblygu eu sgiliau.
- Nid yw ein gweithlu mor amrywiol ag y dylai fod, gan gynnwys ar lefel uwch. Rydym yn gwybod hefyd bod rhai grwpiau o staff yn wynebu rhwystrau ac anghydraddoldebau yn y gweithle, er enghraifft, staff duon ac o leiafrifoedd ethnig, y rhai sydd â chyfrifoldebau gofalu a chydweithwyr anabl.

## Sut fydd hyn yn edrych?

**Byddwn yn cyflawni ein huchelgais gyda hyblygrwydd, sensitifrwydd tuag at yr amgylchedd allanol ac arweinyddiaeth ar draws pob rôl.**

- Gall cydweithwyr ddatblygu'r sgiliau y mae eu hangen arnynt trwy gydol eu gyrfaoedd. Bydd gan bobl fwy o ymreolaeth, a byddant yn cael eu grymuso i godi eu llais a dysgu o fewn diwylliant myfyriol.
- Dangosir arweinyddiaeth dosturiol a chynhwysol ar draws pob lefel.
- Mae ein blaenoriaethau yn glir, mae pobl yn eu deall ac maent yn caniatáu i ni fod yn hyblyg yn ôl yr angen.
- Rydym yn parhau i ddenu staff o ansawdd uwch, trwy gynnig rolau dynamig, heriol a gwerth chweil.

**Mae CMC yn sefydliad mwy amrywiol a chynhwysol.**

- Mae ein hamgylchedd yn gynhwysol ac yn ofalgar, ac mae lles wrth wraidd ein gwaith – yn yr un ffordd ag yr ydym yn disgwyl i leoliadau gofal iechyd fod.
- Gall pawb fod eu hunain, a chânt eu hannog a'u cynorthwyo i siapio ein gwaith. Mae'n cydweithwyr a'n rhwydweithiau mewnol yn cyflawni rôl pwysig yn hyn, a gydag eraill, maent yn ein helpu i ddeall unrhyw broblemau a datrysiadau posibl yn well.
- Mae ymyriadau yn eu lle i gynorthwyo'r gwaith o gadw a sicrhau cynnydd staff sy'n wynebu anghydraddoldebau, er enghraifft, rhaglen ddatblygu ar gyfer cydweithwyr BME.

- Rydym yn gosod ac yn cyhoeddi targedau fel cyflogwr, gan ganolbwyntio'n arbennig ar gydraddoldeb o ran tâl – rhyw ac ethnigrwydd – a chynrychiolaeth staff BME ar lefelau uwch.
- Mae'n harweinwyr yn meithrin y sgiliau a'r gallu i greu amgylchedd gwaith cynhwysol ar gyfer yr holl staff.

**Mae ein dull tuag at ein cyfrifoldebau corfforaethol yn fwy cydlynol, gan gynnwys ein cyfrifoldebau cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd.**

- Rydym yn rheolydd cyfrifol sy'n cefnogi amgylchedd cynaliadwy a chymunedau iach, gan sicrhau ein bod yn gwneud penderfyniadau sy'n rhai cyfrifol ar lefel gymdeithasol, y maent yn cael effaith gadarnhaol ar y bobl a'r byd o'n cwmpas.
- Bydd ein gwaith gyda rheolyddion eraill yn ymwreiddio pwysigrwydd y cyfrifoldebau hyn ar draws y system rheoliadol iechyd a gofal cymdeithasol.



**Credwn fod darparu amgylchedd gwaith cynhwysol, cefnogol a gofalgar yn y GMC - fel mewn lleoliadau gofal iechyd - o'r pwys mwyaf.**

[5] See page 21 for more about our corporate social responsibilities.

# Y ffordd yr ydym yn gweithio

Mae ein diwylliant – sut y mae pobl yn meddwl, yn teimlo ac yn gweithredu yn y gwaith – yn effeithio ar ba mor effeithiol y byddwn yn cyflawni pethau. Mae'r gwerthoedd yr ydym yn eu disgwyl gan eraill yr un fath â'r rhai y byddwn yn ymdrechu i'w cyflawni ym mhob penderfyniad, pob rhyngweithiad, bob dydd.

- **Uniondeb** – rydym wedi ymrwymo i wneud y peth iawn ar gyfer y rhai yr ydym yn gweithio gyda nhw ac ar eu rhan, gan gynnwys bod yn onest a rhannu'r hyn yr ydym yn ei weld. Mae parch tuag at bawb a dealltwriaeth o brofiadau unigolion yn rhan greiddiol o hyn.
- **Rhagoriaeth** – rydym wedi ymrwymo i ddysgu a gwella, fel y gallwn wneud ein gorau ar gyfer y cyhoedd, y proffesiwn a'n partneriaid. Mae rhagoriaeth yn gofyn am amrywiaeth gan ei fod yn dwyn gwybodaeth, arloesi a dealltwriaeth a sgiliau newydd.
- **Cydweithio** – conglfaen ein holl waith, yn fewnol ac yn allanol. Rhaid i ni weithio gydag eraill ac rydym yn ymgysylltu mewn ffordd ragweithiol gydag ystod amrywiol o bobl er mwyn adlewyrchu cymaint o safbwyntiau unigol ag y bo modd.
- **Tegwch** – rydym yn dymuno i bawb sy'n cael cyswllt gyda ni i gael eu trin yn deg ac i deimlo eu bod wedi cael eu trin yn deg. Ac rydym yn dymuno cael ein cydnabod fel sefydliad sy'n hyrwyddo, sy'n cynorthwyo ac sy'n meithrin tegwch a chynhwysiant mewn ffordd weithredol.
- **Tryloywder** – rydym yn onest ac yn ceisio bod yn agored ac yn dryloyw, felly gallwch sicrhau ein bod yn atebol.



## Cydweithio

Ar y cyd, byddwn ni a phartneriaid gofal iechyd a rheolyddion eraill ar draws y DU yn cyflawni nodau a rennir ac yn datblygu mentrau sy'n bodoli eisoes i rannu ein harbenigedd, ein dirnadaeth a'n harfer gorau.  Mae dealltwriaeth a gweithredu ar y cyd yn hanfodol er mwyn rhoi sylw i heriau heddiw a sicrhau newid go iawn i gleifion a gweithwyr meddygol proffesiynol.

Bu'r angen am gydweithio llawer agosach ar draws rheolyddion yn thema gyson ymchwiliadau cyhoeddus i fethiannau difrifol ym maes gofal iechyd dros y blynyddoedd diwethaf.  Rydym yn benderfynol o weithredu ar sail yr hyn a ddysgom trwy sicrhau mai cydweithio yw ein ffordd arferol o weithio.

Rydym wedi ymrwymo hefyd i wneud mwy i ymwreiddio profiadau cleifion ym mhopeth a wnawn.  Ac yn ystod y strategaeth hon, byddwn yn cynyddu'r cyfleoedd i'r cyhoedd, cleifion a'u cynrychiolwyr i gyfrannu at ein gwaith.

Ac yn hanfodol, byddwn yn cynnwys grwpiau amrywiol o weithwyr meddygol proffesiynol yn ein gwaith a'n gwaith ymchwil, fel y gallwn gynnwys eu hanghenion a'u pryderon nhw yn y ffordd orau.

## Gwneud penderfyniadau wedi'u seilio ar dystiolaeth

Mae ein harolygon, ein gwaith ymchwil a'n gwybodaeth yn cyfrannu at yr hyn a wnawn a ble y byddwn yn canolbwyntio ein hymdrechion.  Gall tystiolaeth o'r ffynonellau hyn ddangos tueddiadau sy'n dod i'r amlwg a phrofiadau cleifion a gweithwyr meddygol proffesiynol.  Mae'r ddirnadaeth hon yn hanfodol er mwyn i ni fod yn effeithiol ac yn berthnasol trwy ein prosesau ein hunain a'n dylanwad o fewn y system gofal iechyd ehangach.

Bydd dull sy'n gynyddol gydweithredol gyda phartneriaid – lle y byddwn yn rhannu mwy o ddata – yn ein galluogi i nodi risgiau yn gynnar, gan gynyddu cydlyniant rhwng rheolyddion, a'n helpu i roi sylw i faterion sy'n dod i'r amlwg, y maent yn effeithio ar ansawdd y gofal.

## Gweithredu mewn ffordd gyfrifol

Ein nod yw bod yn sefydliad cyfrifol ar lefel gymdeithasol, sy'n ymwreiddio cynaladwyedd, effaith gymdeithasol a moeseg ym mhopeth a wnawn.  O fentrau unigol i weithgareddau a phenderfyniadau bob dydd, rydym yn ymdrechu i gyflawni ein gwaith mewn ffordd sy'n cynnig budd i'r amgylchedd ac i gymdeithas gyfan.  Mae hyn yn cynnwys bod yn ecogyfeillgar, cynorthwyo ein cymunedau trwy wirfoddoli, arferion caffael moesegol neu hyfforddiant, mentora a phrentisiaethau ar gyfer pobl o grwpiau sy'n cael eu tangynrychioli.

Mae'n ymwneud â bod yn gynhwysol ac yn deg ym mhob agwedd ar ein gwaith hefyd, a chynnig gwerth hirdymor i gydweithwyr, cleifion a'r proffesiwn.



E-bost: gmc@gmc-uk.org

Gwefan: gmc-uk.org

Ffôn: 0161 923 6602

Cyhoeddwyd Tachwedd 2020

© 2020 Cyngor Meddygol Cyffredinol

Gellir atgynhyrchu'r testun yn y ddogfen hon yn rhad ac am ddim mewn unrhyw ffurf neu gyfrwng, ar yr amod ei fod yn cael ei atgynhyrchu mewn ffordd gywir ac nid mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod hawlfraint CMC dros y deunydd a nodi teitl y ddogfen.

Mae'r GMC yn elusen sydd wedi'i chofrestru yng Nghymru a Lloegr (1089278) a'r Alban (SC037750)

GMC/CS2021-25/1120